



# Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Pumed Adroddiad Blynyddol 1 Ionawr 2023 – 31 Mawrth 2024

24 Mai 2024



Tribiwnlysoedd Cymru  
Welsh Tribunals

Llywydd / President

# Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru	5
3	Llwyth gwaith	7
4	Cyllid	8
5	Hyfforddiant Barnwrol	10
6	Y Gymraeg	11
7	Penodiadau	13
8	Diwygio Tribiwnlysoedd	14
9	Y Flwyddyn Gyntaf	16
	Atodiad	17

# 1 Cyflwyniad

1.1 Dyma bumed Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a'm Hadroddiad Blynyddol cyntaf i. Paratowyd y pedwar adroddiad cyntaf gan fy rhagflaenydd, Syr Wyn Williams, a wasanaethodd fel Llywydd o fis Gorffennaf 2017 nes iddo ymddeol ym mis Mawrth 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y swydd ei chreu gan adran 60 o Ddeddf Cymru 2017, a datblygwyd y rôl o oruchwylio'r chwe thribiwnlys datganoledig gan gynnwys gwella eu strwythurau a chynyddu eu cydlynid gweinyddol. Mae ei waddol yn cynnwys rhaglen ddiwygio sy'n datblygu ar gyfer tribiwnlysoedd Cymru, ac rwy'n hapus ac yn falch o'i hetifeddu. Ni ellir gorbwysleisio rhan Syr Wyn yn y daith hynod hon. Mae gan y rhai sy'n gweithio yn ein tribiwnlysoedd a gyda nhw, a'r rhai sy'n dod ger eu bron fel partion, ddyled enfawr iddo.

1.2 Fe'm penodwyd yn olynydd iddo ar 1 Ebrill 2023, gan dyngu llw gerbron yr Arglwydd Brif Ustus, yr Arglwydd Burnett o Maldon, yn Llys y Goron Caerdydd ar 2 Mai 2023. Dros y 25 mlynedd diwethaf, rwyf wedi treulio llawer o'm hamser fel barnwr yng Nghymru, ac mae'n anrhydedd mawr anrhydedd mawr cael fy mhenodi'n uwch farnwr yn Nhribiwnlysoedd Cymru, yn enwedig ar adeg mor ddiddorol a bywiog yn eu datblygiad.

1.3 Fel yr eglurwyd yn Adroddiad Cyntaf Syr Wyn, mae Deddf Cymru 2017 yn gosod dyletswydd ar Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru i gynrychioli safbwyntiau aelodau Tribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac i'r Senedd. Yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd â Phrif Weinidog Cymru (y Prif Weinidog) a'r Cwnsler Cyffredinol – roedd fy nghyfarfod cyntaf gyda nhw ar 8 Mehefin 2023 – ar ôl ymgynghori â nhw, a gyda'r angen am dryloywder ac atebolrwydd priodol mewn golwg, penderfynodd Syr Wyn mai'r ffordd orau o gyflawni'r ddyletswydd honno fyddai drwy gynhyrchu adroddiad rheolaidd a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Prif Weinidog a Llywydd y Senedd. Roedd yr adroddiadau hyn i fod yn flynyddol; ond, am y rhesymau a nodwyd gan Syr Wyn yn ei Gyflwyniad, roedd Pedwerydd Adroddiad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cynnwys y cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Rhagfyr 2022. Mae'r Adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mawrth 2024. Yn y dyfodol, byddaf yn dychwelyd at baratoi adroddiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill i Fawrth.

1.4 Mae Tribiwnlysoedd Cymru dan fy adain i wedi'u nodi yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, fel y'i diwygiwyd. Y rhain yw:

- (a) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru/the Agricultural Land Tribunal for Wales;
- (b) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru/the Mental Health Review Tribunal for Wales;
- (c) Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru/the Residential Property Tribunal Wales (sy'n cynnwys tri thribiwnlys cyfansoddol: pwyllgorau asesu rhenti a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977, tribiwnlys prisio lesddaliadau a thribiwnlys eiddo preswyl);
- (d) Tribiwnlys Addysg Cymru/the Education Tribunal for Wales (sydd hefyd yn rheoli awdurdodaethau tribiwnlysoedd yn ymwneud â chofrestru arolygwyr ysgolion ac arolygwyr addysg feithrin);
- (e) Panel Dyfarnu Cymru/the Adjudication Panel for Wales;
- (f) Tribiwnlys y Gymraeg/The Welsh Language Tribunal.

1.5 Mae'r tribiwnlysoedd canlynol yn gweithredu yng Nghymru ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn adran 59, ac nid ydynt yn dod dan gylch gwaith Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

- (a) Tribiwnlysoedd heb eu datganoli sy'n rhan o'r system tribiwnlysoedd sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr a ddiwygiwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, fel y rhai sy'n dyfarnu ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chynnal plant, mewnfudo a lloches, a chyflogaeth. Gweinyddir y rhain gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi ("GLITEF Cymru"), ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd sy'n gyfrifol am eu barnwriaeth. Yn yr adroddiad hwn, byddaf yn cyfeirio atynt fel "tribiwnlysoedd GLITEF".
- (b) Tribiwnlysoedd sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig yng Nghymru, ond nid o dan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Er enghraifft, Tribiwnlys Prisio Cymru sydd â'i strwythurau cyfreithiol, barnwrol a gweinyddol ei hun; a thribiwnlysoedd sy'n penderfynu ar apeliadau derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau o ysgolion a weinyddir gan awdurdodau addysg lleol heb unrhyw strwythurau cyffredinol.

1.6 Cefnogir Tribiwnlysoedd Cymru gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru, dan arweiniad Rhian Davies Rees. Mae'n rhan o wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, ond mae'n gweithredu mor annibynnol ag sy'n bosibl yn ymarferol, annibyniaeth sy'n cael ei hybu a'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn cynnwys tua 35 aelod o staff sydd wedi'u lleoli ledled Cymru.

## 2 Swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

2.1 Cafodd swydd Llywydd tribiwnlysoedd Cymru ei chreu gan adran 60 o Ddeddf Cymru 2017, statud y DU. Er bod y rôl wedi'i chyfyngu i dribiwnlysoedd datganoledig sy'n delio â phwnc datganoledig, nid yw'r swydd yn awdurdod datganoledig Cymreig at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.2 O ystyried y camau i ddiwygio Tribiwnlysoedd Cymru (sy'n cynnwys cynigion i ddiwygio rôl a swyddogaethau'r Llywydd), mae'n amserol cael ein hatgoffa o bwerau a dyletswyddau presennol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fel y nodir yn adran 60 o Ddeddf 2017. Fel yr eglurodd Syr Wyn Williams yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf, nid yw Deddf 2017 yn diffinio bwerau a dyletswyddau'r Llywydd yn gynhwysfawr; ond mae'n ymhyg yn adran 60 mai'r Llywydd yw'r barnwr uchaf o fewn Tribiwnlysoedd Cymru ac, yn ogystal â'r dyletswyddau y cyfeirir atynt yn benodol yn y Ddeddf, mae'n arfer rôl oruchwyliol dros bob un o Dribiwnlysoedd Cymru. Felly, er enghraifft, mae'r Llywydd yn sicrhau yr ymchwiler yn deg, yn briodol ac un unol â'r weithdrefn gwyno berthnasol i'r cwynion a dderbynnir am ymddygiad aelodau Tribiwnlys Cymru. Yn ogystal â chyfarfodydd sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd penodol, byddaf yn cwrdd â holl Arweinwyr Barnwrol Tribiwnlysoedd Cymru ac uwch aelodau Uned Tribiwnlysoedd Cymru bob chwarter i drafod materion sy'n croesi ffiniau tribiwnlysoedd.

2.3 Mae dyletswyddau penodol y Llywydd a ragnodir gan adran 60 wedi'u cyfyngu i gynrychioli safbwyntiau aelodau Tribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac i aelodau eraill o'r Senedd fel y disgrifir uchod; ac i gynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, canllawiau a lles aelodau Tribiwnlysoedd Cymru o fewn yr adnoddau sydd ar gael gan Weinidogion Cymru. Yn unol â'r bwerau hyn, gall y Llywydd (er enghraifft) gyhoeddi Nodiadau Cyfarwyddyd i aelodau tribiwnlysoedd, fel rwyf wedi'i wneud ar ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn achosion ac wrth weinyddu tribiwnlysoedd, ac eisteddiadau o dramor.

2.4 Fodd bynnag, wrth arfer ei bwerau goruchwylio ehangach, mae adran 60(4) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd roi sylw i'r angen i achosion gerbron Tribiwnlysoedd Cymru fod yn deg a chael eu trin yn gyflym ac yn effeithlon; i aelodau fod yn arbenigwyr priodol yn y pwnc neu'r gyfraith a ddefnyddir yn eu tribiwnlysoedd; ac i'r angen i "ddatblygu dulliau arloesol o ddatrys anghydfodau sydd o fath y gellir eu dwyn gerbron y tribiwnlysoedd hynny". Mae'r rheini, yn ymarferol, yn gosod rhwymedigaethau sylweddol ar y Llywydd.

2.5 Rwyf hefyd yn ystyried bod rôl y Llywydd o ran dehongli, a thrwy hynny, ddatblygu'r gyfraith yn y meysydd datganoledig yn bwysig. Nid oes gan y Llywydd unrhyw bŵer statudol penodol i eistedd – a hyd yma, nid yw wedi eistedd – yn unrhyw un o Dribiwnlysoedd Cymru. Ond, rwyf wedi cael fy mhenodi'n Farnwr Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys (rhan o'r system tribiwnlysoedd heb eu datganoli) sy'n gwrando apeliadau o Dribiwnlysoedd Cymru, gan fy ngalluogi i wrando ar apeliadau o'r fath. O ran apeliadau sy'n mynd ymhellach, gallaf hefyd eistedd yn y Llys Apêl (Adran Sifil).

2.6 Fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, rwyf yn eistedd ar nifer o gyrff sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder ehangach yng Nghymru (fel Pwyllgor Cymreig Cyngor y Barnwyr dan gadeiryddiaeth yr Arglwyddes Brif Ustus, Cyngor y Gyfraith yng Nghymru, Pwyllgor Cyngori Cymru Comisiwn y Gyfraith a Phwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg) a systemau'r tribiwnlysoedd ar draws y DU (fel Bwrdd Gweithredol Barnwriaeth y Tribiwnlysoedd a'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol). Mae pob un o'r gyrff hyn yn cwrdd yn rheolaidd, ac yn fy ngalluogi i, fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y system gyfiawnder ehangach yng Nghymru a'r systemau tribiwnlysoedd yn y pedair awdurdodaeth gartref, ac i ddylanwadu ar y datblygiadau hynny.

2.7 Yn fuan ar ôl cael fy mhenodi, nodais bedwar maes roeddwn yn credu a oedd yn cyfiawnhau eu blaenoriaethu yn y flwyddyn 2023-24, sef hyfforddiant barnwrol, defnyddio'r Gymraeg yn y tribiwnlysoedd, penodi Llywyddion a barnwyr cyflogedig, a diwygio drwy'r Bil Tribiwnlysoedd. Gweler yr Atodiad ar ddiwedd y ddogfen, a gyhoeddais ddechrau'r flwyddyn, lle'r wyf yn nodi'r blaenoriaethau hyn a'r camau yr oeddwn yn bwriadu eu cymryd wrth eu dilyn. Rwyf yn adolygu'r meysydd blaenoriaeth hyn isod (paragraffau 5-8).

### 3 Llwyth gwaith

3.1 Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan Dribiwnlysoedd Cymru ym mlynnyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24 wedi'u nodi isod. Mae'r ffigurau ar gyfer 2020-21 a 2021-22 wedi'u cynnwys er mwyn cymharu.

**Tabl 1: Nifer y ceisiadau fesul tribiwnlys**

Tribiwnlys	Blwyddyn ariannol 2020-21	Blwyddyn ariannol 2021-22	Blwyddyn ariannol 2022-23	Blwyddyn ariannol 2023-24
Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru	13	20	28	17
Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru	1790	1840	1747	1798
Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru	106	113	182	184
Tribiwnlys Addysg Cymru*	116	151	90	108
Panel Dyfarnu Cymru	4	10	3	6
Tribiwnlys y Gymraeg	13	3	1	2

\* Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn flaenorol. Cafodd ei ailenwi o 1 Medi 2021 ymlaen gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

3.2 Mae rhagor o wybodaeth am natur y gwaith a wneir ac aelodaeth pob tribiwnlys wedi'i nodi yn eu hadroddiadau blynyddol, a gyhoeddir ar wefan pob tribiwnlys.

## 4 Cyllid

4.1 Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer costau rhedeg y tribiwnlys a chostau gweinyddol. Yn ystod blynyddoedd ariannol 2022-2023 a 2023-24, y gyllideb a ddyrannwyd i dribiwnlysoedd oedd £4,233,000 a £4,150,000 yn y drefn honno. Roedd y gwariant gwirioneddol ar gyfer 2022-23 yn £4,454,476, ac ar gyfer 2023-24 roedd yn £5,016,688.

4.2 Felly, mae gwariant blynyddol y tribiwnlysoedd wedi mynd y tu hwnt i'r dyraniad. Mae hyn yn bennaf oherwydd mwy o amser barnwrol gyda ffi a chostau recriwtio, cynnydd mewn costau cyflog a phensiwn ac, yn dilyn COVID, gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn dychwelyd i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, sef y tribiwnlys mwyaf. Ni fu cynnydd yn y dyraniadau cyllideb i gwrdd â'r gwariant cynyddol hwn.

4.3 Nid Gweinidogion Cymru sy'n penodi pob aelod o Dribiwnlysoedd Cymru ar hyn o bryd: mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi rhai ohonynt o hyd. Fodd bynnag, er mai'r awdurdod penodi sy'n gyfrifol am delerau ac amodau, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gydnabyddiaeth ariannol yr holl swyddi barnwrol datganoledig yng Nghymru.

4.4 Mae cael cyfraddau ffioedd sy'n debyg i lysoedd a thribiwnlysoedd a gedwir yn ôl ac a weinyddir gan GLITEF yn hanfodol i Dribiwnlysoedd Cymru. Nid yn unig mae'n bwysig oherwydd bod tegwch yn mynnu y dylai'r rheini sy'n gwneud yr un gwaith fel barnwyr ac aelodau nad ydynt yn aelodau cyfreithiol yng Nghymru gael eu talu'n gymesur; ond hefyd oherwydd bod pob un ond un o'n barnwyr tribiwnlysoedd datganoledig yn farnwyr rhan-amser sy'n derbyn ffi ac mae gan nifer gyfrifoldebau eraill i dribiwnlysoedd neu lysoedd GLITEF, fel y gall unrhyw wahaniaeth mewn cyflog arwain atynt yn dewis eistedd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill yn hytrach na'r tribiwnlysoedd datganoledig sy'n talu llai. Felly, 'nid mater o egwyddor yn unig yw cydraddoldeb a thegwch, ond mae gan unrhyw wahaniaeth ganlyniadau ymarferol sylweddol posibl.

4.5 Ers 2017, mae llawer o waith wedi cael ei wneud i sicrhau bod ffioedd aelodau tribiwnlysoedd datganoledig Cymru yn cyd-fynd â chymaryddion priodol yn llysoedd a thribiwnlysoedd GLITEF. Yn 2019, cytunodd y Prif Weinidog ar strwythur ffioedd diwygiedig a oedd yn cysoni ffioedd aelodau cyfreithiol. Ym mis Awst 2020, cynhaliwyd ymarfer tebyg ar gyfer aelodau nad ydynt yn aelodau cyfreithiol. Ers hynny, mae cyfraddau cyflog aelodau tribiwnlysoedd datganoledig wedi bod yn debyg i'r rheini yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a weinyddir gan GLITEF.

4.6 Ym mis Gorffennaf 2023, yn unol ag argymhelliad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ("SSRB"), cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor gynnydd o 7% ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol sy'n eistedd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd GLITEF, a fyddai'n weithredol o 1 Ebrill 2023 ymlaen.



4.7 Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gyfrannu at Adolygiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion a arweiniodd at yr argymhelliad hwnnw ac, wrth gwrs, nid yw'n rhwym wrth ei argymhelliad mewn perthynas â deiliaid swyddi barnwrol na'r penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU i'w dderbyn. Yn dilyn cryn dipyn o drafod, gan gynnwys cyfarfod rhwng y Prif Weinidog a minnau ar 18 Rhagfyr 2023 i drafod canlyniadau posibl peidio â mabwysiadu codiad cyflog o 7%, ar 12 Chwefror 2024, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai dyfarniad cyflog o 5% i aelodau tribiwnlysoedd datganoledig, yn weithredol o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Yn ôl y Prif Weinidog, mae dyfarniad cyflog sy'n llai na'r hyn a roddwyd mewn perthynas â llysoedd a thribiwnlysoedd a gedwir yn ôl yn cael ei gymryd yn anfoddog iawn. Ond, mae'n cael ei wneud yng ngoleuni'r cefndir ariannol anodd lle nad oedd dyfarniad cyflog o fwy na 5% wedi'i wneud ar gyfer unrhyw sector y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am benderfyniadau cyflog ar ei gyfer.

4.8 Er bod y Prif Weinidog wedi egluro'n glir iawn bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddychwelyd i gydraddoldeb cyflog cyn gynted ag y mae'r sefyllfa gyllidebol yn caniatáu, mae'r gwahaniaeth cyflog wedi cael effaith niweidiol anochel ar ein tribiwnlysoedd, yn bennaf ar barodrwydd aelodau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (lle mae gan lawer o aelodau benodiadau proffesiynol a thribiwnlysoedd eraill) i eistedd. Mae hyn wedi gwaethygu'r anawsterau sy'n wynebu'r tribiwnlys hwnnw wrth sefydlu paneli ar gyfer gwrandawiadau yn dilyn bwlch o ganlyniad i COVID. Mae hyn yn rhywbeth rwyf wrthi'n gweithio arno, gydag arweinwyr barnwrol ac uwch weinyddwyr y tribiwnlys hwnnw.

4.9 Nododd y Prif Weinidog hefyd barodrwydd i ystyried arferion gweithio gwahaniaethol, sydd hefyd yn gwneud eistedd mewn Tribiwnlysoedd yng Nghymru (ac, yn benodol, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru) yn llai deniadol. Er enghraifft, mae gan aelodau'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl cyfatebol yn Lloegr (Siambur Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) delerau mwy hael nag aelodau o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru o ran canslo, ac amser darllen ac ysgrifennu, a allai olygu bod eistedd yn y tribiwnlys hwnnw'n fwy deniadol. Byddai lefelu'r anghysonderau hyn yn helpu i annog aelodau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru i eistedd, a byddaf yn mynd ar drywydd hyn gyda'r Gweinidogion priodol. Fodd bynnag, fel unrhyw adolygiad o arferion gweithio, mae'n debygol, ar y gorau, y bydd yn cymryd peth amser.

## 5 Hyfforddiant Barnwrol

5.1 Fel y nodwyd uchod, mae gennyf ddyletswydd statudol benodol i gynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddi aelodau Tribiwnlysoedd Cymru o fewn yr adnoddau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

5.2 Mae'r hyfforddiant a ddarperir gan bob tribiwnlys yn cynnwys hyfforddiant blynyddol o un neu ddau ddiwrnod yn olynol fel arfer, gyda hyfforddiant ychwanegol ar (er enghraifft) unrhyw ddarpariaethau statudol newydd sy'n newid gwaith y tribiwnlys ac y mae angen hyfforddiant penodol ar ei gyfer cyn gweithredu. Mae gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru hefyd bedwar gweithdy blynyddol, a disgwylir i aelodau fynychu un ohonynt, sef dau wyneb yn wyneb yn Ne Cymru, un yng Ngogledd Cymru a gweithdy ar-lein ar gyfer y rhai na allant fynychu unrhyw un o'r rheini sy'n wyneb yn wyneb. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd, cynhelir y gynhadledd flynyddol wyneb yn wyneb, ac mae'n gyfle prin a gwerthfawr i'r aelodau gyfarfod a thrafod materion yn anffurfiol yn ogystal â mewn cyd-destun hyfforddi ffurfiol. Fel y rhagwelwyd yn fy Mhapur Blaenoriaethau, eleni, mynychais a siaradais ym mhob un o'r cynadleddau blynyddol. Rhoddodd hyn gyfle i mi gwrdd ag aelodau, ateb eu cwestiynau, a thrafod eu gwaith gyda nhw mewn sesiwn ffurfiol ac anffurfiol. Roedd yn amhrisiadwy.

5.3 Er mwyn cyflawni'r nodau ar gyfer hyfforddiant barnwrol a nodir yn fy Mhapur Blaenoriaethau, rwyf wedi penodi'r Barnwr Richard Payne (Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru) yn Arweinydd Barnwrol ar Hyfforddiant, gyda'r cylch gwaith o sicrhau bod y gwerth gorau am arian yn cael ei sicrhau o'r gyllideb hyfforddi.

5.4 Rwyf wedi sefydlu system adborth gyffredin o'r hyfforddiant a gynhelir, a fydd yn helpu i nodi anghenion hyfforddi yn y dyfodol a tharo goleuni ar gwmpas a dull hyfforddiant yn y dyfodol. Rydym yn ymchwilio i ba raddau y gellir darparu hyfforddiant o bell, gyda golwg ar gynyddu'r hyfforddiant y gallwn ei roi i aelodau o fewn y gyllideb sydd wedi'i dyrannu.

5.5 Nid oes gan y Coleg Barnwrol gylch gwaith i hyfforddi aelodau tribiwnlysoedd datganoledig; ond mae'r Coleg wedi dangos parodrwydd i gefnogi aelodau ein tribiwnlysoedd drwy ddarparu deunyddiau hyfforddi a chaniatáu i'r rhai sy'n gyfrifol am hyfforddiant tribiwnlys yn y tribiwnlysoedd datganoledig fynychu sesiynau hyfforddi'r Coleg Barnwrol fel arsylwyr. Mae'r Barnwr Payne yn mynd ar drywydd y ffynhonnell hon o ddeunyddiau ac arbenigedd hyfforddi.

## 6 Y Gymraeg

6.1 O ran rhwymedigaethau cyfreithiol, mae'r holl dribiwnlysoedd ac eithrio Tribiwnlys y Gymraeg a Phanel Dyfarnu Cymru wedi'u rhestru yn Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Felly maent yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a'r safonau a nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016.

6.2 Mae'r tribiwnlysoedd sy'n dod o fewn y Mesur yn rhwym i gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, y Safonau Llundain Polisi (y gofyniad i ystyried effaith polisiâu newydd ar y Gymraeg) a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau a'r Safonau Cadw Cofnodion (yn achos y Tribiwnlysoedd, cadw cofnodion o gwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg) a nodir yn Atodlen 4 y Rheoliadau. Nid oes yr un yn ddarostyngedig i'r safonau a nodir yn yr Atodlenni eraill, sef y Safonau Hybu na'r Safonau Gweithredu.

6.3 Er nad yw Tribiwnlys y Gymraeg, Panel Dyfarnu Cymru na Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cael eu llywodraethu'n ffurfiol gan y Mesur na'r Rheoliadau, mae pob un ohonynt yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r un safonau, gan gydnabod ysbryd y cynllun.

6.4 Cafwyd canlyniadau cadarnhaol o Ymarfer "Cwsmer Cudd" Comisiynydd y Gymraeg yn 2023, a oedd yn profi a oedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Addysg Cymru yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

6.5 Y rhain yw'r safonau cyfreithiol ffurfiol. Mae holl Dribiwnlysoedd Cymru yn annog ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg, o ran ymwneud â gweinyddu'r gwasanaeth (er enghraifft, mae pob ffurflen ar gael yn Gymraeg, ac mae gohebiaeth yn y Gymraeg yn cael ei hannog) ac mewn gwrandawiadau. Mae gan bob tribiwnlys y cyfleuster a'r gallu i weinyddu achosion a gwrandawiadau yn Gymraeg. Ym mhob ffurflen gais, gofynnir i'r partion a ydynt yn dymuno gohebu a/neu gynnal eu gwrandawriad yn Gymraeg, neu Saesneg, neu'r ddwy iaith (hynny yw, hybrid); ac mae'r ymateb hwnnw'n rheoli'r iaith a ddefnyddir wrth ymgysylltu â'r parti hwnnw.

6.6 Mae proses hunanasesu newydd wedi cael ei chreu a'i gweithredu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru, lle mae staff yn asesu sut y mae pob tribiwnlys yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn darparu llinell sylfaen o ran sut y mae pob tribiwnlys yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn hwyluso ac yn annog defnyddio'r Gymraeg.

6.7 Cynhaliwyd arolwg hefyd ymysg holl aelodau'r tribiwnlys i ganfod pa aelodau sy'n gallu siarad Cymraeg, gan gynnwys aelodau a fyddai'n gallu cynnal gwrandawriad yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg heb ddefnyddio cyfieithwyr. O'r 236 aelod o Dribiwnlysoedd Cymru, nododd 60 (25.4%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda 43 (18.2%) o'r rheiny yn nodi y byddent yn gallu cynnal gwrandawriad yn Gymraeg heb ddefnyddio cyfieithwyr. Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymarfer hwn wedi cynorthwyo'r tribiwnlysoedd i ffurfio paneli Cymraeg eu hiaith pan fo partion wedi nodi eu bod yn dymuno cyflwyno tystiolaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn yr iaith Gymraeg a/neu siarad Cymraeg yn y gwrandawriad. Bydd hefyd yn nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau iaith yn aelodaeth y tribiwnlys, y gellir mynd i'r afael â nhw wedyn drwy hyfforddiant neu recriwtio.

6.8 Er y gall pob tribiwnlys ddarparu gwasanaethau gweinyddol a gwrandawiadau yn Gymraeg, ychydig iawn a ddefnyddir ar yr iaith yn ein tribiwnlysoedd, fel y gwelir o'r tabl isod.

**Tabl 2: Gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg**

Tribiwnlys	Blwyddyn ariannol 2020-21	Blwyddyn ariannol 2021-22	Blwyddyn ariannol 2022-23	Blwyddyn ariannol 2023-24
Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru	0	0	0	0
Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru	5	3	3	9
Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru	0	0	0	0
Tribiwnlys Addysg Cymru*	1	0	3	2
Panel Dyfarnu Cymru	0	0	0	0
Tribiwnlys y Gymraeg	1	0	2	2

\* Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn flaenorol. Cafodd ei ailenwi o 1 Medi 2021 ymlaen gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

6.9 Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill yng Nghymru. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng faint o Gymraeg a ddefnyddir mewn bywyd bob dydd (ac yn wir, mewn agweddau eraill ar fywyd cyhoeddus) yng Nghymru a faint o Gymraeg a ddefnyddir mewn gwrandawiadau yn y system gyfiawnder. Er y gallwn ddyfalu pam mae hyn yn digwydd (er enghraifft, oherwydd y defnyddir Saesneg mewn cyd-destunau ffurfiol yn draddodiadol), nid oes unrhyw ddata hysbys a allai helpu i nodi'r rhesymau dros y diffyg hwn neu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

6.10 O 1 Ebrill 2024 ymlaen, mae cwestiwn ychwanegol, gwirfoddol wedi cael ei ychwanegu at y ffurflen gais ym mhob un o'n hawdurdodaethau (ac eithrio, am y tro, Panel Dyfarnu Cymru), yn syth ar ôl y cwestiynau sy'n ymwneud â dewis iaith, i archwilio pam mae'r rheini sy'n siarad Cymraeg wedi nodi eu bod yn dymuno ymgysylltu â gweinyddiaeth y tribiwnlys a chael eu gwrandawriad yn Saesneg yn unig. Mae'r ffurflen yn nodi'n glir na fydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn effeithio ar sut y cynhelir eu hachos mewn unrhyw ffordd, ond ei fod yn ceisio canfod y rhesymau dros amlygrwydd y Saesneg yn ein tribiwnlysoedd. Y gobaith yw y bydd digon o ymatebion yn cael eu derbyn i'r cwestiwn hwn er mwyn gallu dod i rai casgliadau, ac o ganlyniad, ein bod yn gallu cymryd camau i ddileu'r rhwystrau rhag defnyddio'r Gymraeg yn ein tribiwnlysoedd. Nid mater o'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn unig yw hwn: gall ataliaeth o'r fath fod yn rhwystr i gyfiawnder i'r rheini a fyddai'n cyflwyno eu hachos yn well i dribiwnlys drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.11 Yn fwy cyffredinol, cyflwynodd staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru sesiwn hyfforddi ar y Gymraeg a gofynion Safonau'r Gymraeg yng nghynadledau blynyddol y Tribiwnlys Tir Amaethyddol, Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Addysg Cymru, a Diwrnod Hyfforddiant Tîm Staff yr Uned, a oedd yn amlinellu'r ddeddfwriaeth a'r gofynion cyfreithiol, gan nodi rolau'r weinyddiaeth a deiliaid swyddi barnwrol o ran darparu gwasanaethau yn y Gymraeg; a sut y gellir hwyluso a chefnogi defnyddio'r Gymraeg yn ymarferol ym mhrosesau a gwrandawiadau'r tribiwnlys. Yn ogystal, mynychodd sawl barnwr ac aelod o Dribiwnlysoedd Cymru gynhadledd Coleg Barnwrol a gynlluniwyd i'w cynorthwyo i gynnal achosion yn Gymraeg.

## 7 Penodiadau

7.1 Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, penodwyd y Barnwr Jane McConnell yn Arweinydd Barnwrol newydd Tribiwnlys Addysg Cymru yn dilyn ymgyrch a weinyddwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ("y Comisiwn"). Yn chwarter olaf 2022/23, cafodd dau aelod o'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl eu hawdurdodi i eistedd yn Nhribiwnlys Addysg Cymru. Ym mis Hydref 2023, yn dilyn ymarfer Datganiadau o Ddiddordeb, cafodd pum aelod cyfreithiol a phum aelod lleyg o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf eu hawdurdodi i eistedd yn Nhribiwnlys Addysg Cymru.

7.2 Yn dilyn ailredeg ymgyrch a weinyddwyd gan y Comisiwn ar gyfer dau farnwr cyflogedig yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, rwy'n falch bod dau wedi'u henwi, a gobeithio y byddant yn cael eu penodi'n ffurfiol cyn bo hir.

## 8 Diwygio Tribiwnlysoedd

8.1 Gan adeiladu ar waith ac argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a Chomisiwn y Gyfraith, ar 19 Mehefin 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn, “System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru: System fodern i dribiwnlysoedd datganoledig Cymru”. Nid oes angen i mi grynhoi gwaith ac argymhellion y papur pwysig hwn – mae ar gael yn rhwydd ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â chrynodeb o’r ymatebion i’r papur a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024.

8.2 Fodd bynnag, dyma bwrpas penodol y mesurau arfaethedig:

- (a) sefydlu system dribiwnlysoedd gliriach, symlach, mwy effeithiol a chydlynol sy’n canolbwyntio ar fynediad at gyfiawnder ac anghenion defnyddwyr dribiwnlysoedd;
- (b) gosod sylfaen gadarn ar gyfer newidiadau i’r system gyfiawnder yng Nghymru yn y dyfodol;
- (c) gwarchod annibyniaeth farnwrol, gan gynnwys drwy roi mwy o annibyniaeth strwythurol i weinyddu cyfiawnder.

8.3 Yn unol â’r nodau hynny, dyma brif elfennau’r diwygiadau arfaethedig i Dribiwnlysoedd Cymru.

- (a) Creu system dribiwnlysoedd unedig ar gyfer dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, sy’n cynnwys dribiwnlys yr haen gyntaf (y byddai’r dribiwnlysoedd presennol yn ffurfio siambrau penodol) a Thribiwnlys Apêl Cymru a fyddai’n gwrandao apeliadau o dribiwnlys yr haen gyntaf. Bwriedir dod â Thribiwnlys Prisio Cymru ac apeliadau derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau o ysgolion i mewn i’r system honno, ond nid ar unwaith o reidrwydd.
- (b) Dyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth farnwrol sy’n berthnasol i’r rheini sy’n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder fel sy’n berthnasol i’r system dribiwnlysoedd ddiwygiedig yng Nghymru, hynny yw, y Gweinidogion perthnasol ac, o bosibl, aelodau’r Senedd hefyd.
- (c) Gwella ac egluro swydd a rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru drwy gyfeirio at bwerau a dyletswyddau statudol penodol fel y rhai sy’n llywyddu yng ngwrandawiadau Tribiwnlys Apêl Cymru, goruchwyllo cwynion yn erbyn aelodau dribiwnlysoedd a phenderfynu ar gwynion yn erbyn uwch farnwriaeth dribiwnlysoedd, a Chadeirio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd arfaethedig Cymru (a fyddai’n gyfrifol am reolau pob dribiwnlys yn y system ddiwygiedig arfaethedig).
- (d) Bydd aelodau’n parhau i gael eu dewis drwy ymarfer y Comisiwn Penodiadau Barnwrol; ond bydd ffurfioldeb penodiadau’n cael ei symleiddio. Ni fydd gan yr Arglwydd Ganghellor unrhyw rôl. Yn gyffredinol, bydd aelodau’n cael eu penodi’n ffurfiol gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, er y bydd uwch farnwyr yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Bydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn dod yn swydd ddatganoledig.
- (e) Gwahanu swyddogaethau gweithredol a gweinyddol y system dribiwnlysoedd newydd yn strwythurol oddi wrth swyddogaethau gweithredol Llywodraeth Cymru, drwy greu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru neu Adran Anweinidogol lle byddai swyddogaethau Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn cael eu rhoi, gyda’r Cadeirydd naill ai’n cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru neu’n Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ex officio.

8.4 Yn ymarferol, er y bydd perthynas hanfodol yn anochel rhwng y corff newydd a fydd yn disodli Uned Tribiwnlysoedd Cymru a’r farnwriaeth ddatganoledig ar y naill law a Llywodraeth

Cymru ar y llaw arall – yn debyg i bartneriaeth – bwriedir gwahanu'r cyfrifoldeb yn glir dros weinyddu system y tribiwnlys o ddydd i ddydd oddi wrth y Llywodraeth weithredol. Un o swyddogaethau pwysig y corff newydd fydd monitro perfformiad y system driwiwnlysoedd: er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, mae'r Papur Gwyn yn cynnig y bydd y corff yn cwblhau cynllun corfforaethol ac adroddiad blynyddol, ac y bydd gwybodaeth am berfformiad gweithredol y system driwiwnlysoedd newydd yn cael ei chyhoeddi. Bydd yr wybodaeth honno'n cynnwys perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, a fydd yn cynnwys materion fel defnyddio'r Gymraeg yn y system driwiwnlysoedd, profiadau gwahaniaethol defnyddwyr triwiwnlysoedd o wahanol gefndiroedd, ac amrywiaeth aelodau triwiwnlysoedd. Agwedd bwysig ar gam gweithredu'r rhaglen ddiwygio fydd ystyried y ffordd orau o fesur ac asesu gwybodaeth o'r fath cyn i'r corff newydd fod yn weithredol.

8.5 Rwyf yn gryf o blaid y diwygiadau arfaethedig, ac rwyf yn deall bod yr Arweinwyr Barnwrol a'r mwyafrif helaeth o aelodau'r tribiwnlys yn teimlo'r un fath. Bydd yn system driwiwnlysoedd hyblyg a chadarn, a ddylai wasanaethu Cymru'n dda am flynyddoedd i ddod. Yn fy marn i, os cânt eu deddfu a'u gweithredu yn ofalus gydag ymgynghori priodol, bydd y diwygiadau o fudd i farnwriaeth y tribiwnlysoedd (a fydd yn cael gwell cyfle i adeiladu bywyd gwaith o gwmpas eistedd yn ein tribiwnlysoedd, ac eistedd mewn gwahanol awdurdodaethau yng Nghymru lle mae eu profiad a'u harbenigedd yn caniatáu hynny), y weinyddiaeth (a fydd yn cael y buddion o ran costau) a bydd yn ddigon hyblyg i ganiatáu i awdurdodaethau eraill ymuno â'r system os a phan fyddant yn cael eu datganoli. Yn bwysicaf oll, bydd y system ddiwygiedig yn rhoi gwell gwasanaeth i'r bobl yng Nghymru rydym yn eu gwasanaethu, drwy alluogi (er enghraifft) gwell swyddogaethau cyfrifiadurol mewn perthynas â gweinyddu a dull gwrandawiaadau, a gwell mynediad at gyfiawnder lleol gan gynnwys cyfiawnder ar lefel apeliadol. Bydd Tribiwnlys Apêl Cymru yn eistedd yng Nghymru ac, yn hollbwysig, bydd yn caniatáu i driwiwnlys yng Nghymru, sy'n atebol yn lleol, ddatblygu'r gyfraith ddatganoledig yng Nghymru. Bydd y rhaglen hon yn gam pwysig yn esblygiad y system gyfiawnder yng Nghymru, ac rwyf innau a barnwriaeth Tribiwnlys Cymru yn ei chefnogi'n llawn.

8.6 Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y rhaglen ddiwygio. Roedd datganiad blynyddol y Prif Weinidog ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth a gyflwynwyd ar 27 Mehefin 2023 yn cyfeirio at friad y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth sy'n ymwneud â system triwiwnlysoedd Cymru yn ystod tymor presennol y Senedd. Nid yw union amseriad y ddeddfwriaeth honno wedi'i gadarnhau eto, ond mae triwiwnlysoedd Cymru yn gweithio ar y rhagdybiaeth y caiff ei chyflwyno yn 2025 ac y daw i rym, gobeithio, yn 2026. Mae'r Tîm Polisi Cyfiawnder yn parhau gyda'r gwaith paratoi. Mae'r tîm hefyd yn ymgynghori â mi'n rheolaidd ac yn ddefnyddiol fel Llywydd a, thrwof i, yr Arweinwyr Barnwrol a barnwriaeth ehangach y triwiwnlys yn ogystal ag ymwneud â'r broses ymgynghori ffurfiol drwy'r Papur Gwyn.

## 9 Y Flwyddyn Gyntaf

9.1 Mae'r rhaglen ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd y cyfeirir ati uchod yn gyfle unigryw i greu system gyfiawnder mewn tribiwnlysoedd a fydd yn gwasanaethu pobl Cymru am flynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, bydd gweithredu rhaglen o'r fath yn arwain at heriau gweithredol sylweddol i fusnes ein tribiwnlysoedd o ddydd i ddydd. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod pob un o'n tribiwnlysoedd datganoledig yn gweithio ar sylfeini cadarn. Gan adeiladu ar waith Syr Wyn Williams, mae blwyddyn gyntaf fy nhymor wedi gweld atgyfnerthu a gwelliannau, a fydd yn ein rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

9.2 Am hynny, rhaid imi ddiolch i farnwriaeth y tribiwnlys (yn enwedig yr Arweinwyr Barnwrol, y mae llawer o'r baich yn disgyn arnynt) ac i'r aelodau – ac, wrth gwrs, Rhian Davies Rees a staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru – am eu cefnogaeth a'u gwaith diflino wrth ddelio ag achosion unigol ac ymdrechu'n barhaus i wella'r systemau rydym yn gweithio oddi tanynt.

9.3 Hoffwn ddiolch hefyd i'r Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS (y Prif Weinidog am y cyfnod dan sylw yn yr Adroddiad hwn ond am y bythefnos olaf) a Mick Antoniw AS (y Cwnsler Cyffredinol) am eu hagwedd ystyriol ac adeiladol at y materion y mae'r system gyfiawnder ddatganoledig yn eu hwynebu yng Nghymru; ac am eu cefnogaeth yn gyffredinol ac, yn benodol, i'r rhaglen ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd. Rwyf yn arbennig o ymwybodol o'r pwysau aruthrol ar amser ac adnoddau Gweinidogion Cymru a'r Senedd; ac rwyf yn ddiolchgar bod y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol yn amlwg yn rhannu fy marn am bwysigrwydd diwygio ein tribiwnlysoedd datganoledig fel eu bod yn addas i'r diben ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gydag olynnydd Mr Drakeford, y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Vaughan Gething AS, dros y misoedd nesaf.

9.4 Edrychaf ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod gyda fy Arweinwyr Barnwrol ac aelodau eraill o'n tribiwnlysoedd; ac at wneud rhagor o gynnydd tuag at wella'r system gyfiawnder ddatganoledig yng Nghymru.



**Y Gwir Anrhydeddus Syr Gary Hickinbottom**  
**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru**



## BLAENORIAETHAU LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

2023/2024

Cyf.	Gweithgaredd	LITC / AB / UTC
<b>Blaenoriaeth A – Hyfforddiant Barnwrol</b>		
A1	Adolygu sut mae anghenion hyfforddi yn cael eu hadnabod ym mhob tribiwnlys datganoledig	LITC / AB
A2	Adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant i'r arweinyddiaeth barnwrol, a sut dylid cwrdd â'r anghenion	LITC / AB
A3	Cytuno pa hyfforddiant sydd i'w ddarparu i'r tribiwnlysoedd datganoledig a sut bydd yn cael ei gyflwyno	LITC / AB
A4	Yn ystod 2023/24, mynychu digwyddiadau hyfforddi ar gyfer pob tribiwnlys, gan ddiweddarau'r aelodau ar faterion byw sy'n ymwneud â'r tribiwnlysoedd, a rhoi cyfle iddynt godi unrhyw faterion	LITC
A5	Cyflwyno dull cyson o werthuso hyfforddiant ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig	LITC / AB
A6	Dadansoddi'r adorth a gafwyd o'r broses werthuso hyfforddiant i adnabod anghenion hyfforddi pellach	UTC
A7	Cyhoeddi costau blynyddol hyfforddiant Barnwrol ar gyfer pob tribiwnlys yn yr Adroddiadau Blynyddol	AB / UTC
<b>Blaenoriaeth B – Yr iaith Gymraeg</b>		
B1	Sefydlu gwaelodlin ar gyfer sut mae pob tribiwnlys yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r iaith Gymraeg	LITC / AB / UTC
B2	Sicrhau fod gan bob tribiwnlys y gallu i gynnal ei fusnes barnwrol a gweinyddol trwy gyfrwng y Gymraeg	LITC / AB / UTC
B3	Trafod gyda defnyddwyr y gwasanaeth i adnabod rhwystrau i ymwneud â'r Tribiwnlysoedd trwy gyfrwng y Gymraeg	UTC
B4	Adnabod gwelliannau y gellir eu gwneud a'u gweithredu yn ystod 23/24 i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ein tribiwnlysoedd	LITC / AB / UTC
B5	Cyflwyno hyfforddiant i holl aelodau'r tribiwnlysoedd a staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg yn eu tribiwnlysoedd ac wrth gyfathrebu'n ehangach, a'r rhwymedigaethau sydd ar y tribiwnlysoedd o dan Safonau'r Gymraeg	LITC / AB / UTC
<b>Blaenoriaeth C - Penodiadau</b>		
C1	Adolygu amrywiaeth ymhlith aelodau presennol y tribiwnlysoedd	LITC / AB / UTC
C2	Ymgysylltu â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol i gefnogi cynnal ymgyrch recriwtio lwyddiannus ar gyfer Arweinydd Barnwrol newydd ar gyfer TAC	UTC
C3	Ymgysylltu â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol i gefnogi cynnal ymgyrch recriwtio lwyddiannus ar gyfer Arweinydd Barnwrol newydd ar gyfer PDC	UTC
C4	Ymgysylltu â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol i gefnogi cynnal ymgyrch recriwtio lwyddiannus ar gyfer dau Farnwr Cyflogedig ar gyfer TAIM Cymru	UTC
C5	Arwain a hwyluso'r drefn anwytho ar gyfer dau Arweinydd Barnwrol a Barnwyr Cyflogedig ar gyfer y Tribiwnlysoedd (ar gyfer yr ymgyrchoedd a nodir yn C2, C3 a C4 uchod)	AB / UTC
<b>Blaenoriaeth D – Y Bil Tribiwnlysoedd</b>		
D1	Sicrhau ymgysylltiad llawn â Thim Bil Diwygio'r Tribiwnlysoedd ar bob cam o broses ddiwygio'r tribiwnlysoedd	LITC
D2	Sicrhau ymgysylltiad â'r holl Arweinwyr Barnwrol (ac ymgysylltu addas â defnyddwyr trwyddyn nhw) ar adegau allweddol yn ystod proses ddiwygio'r tribiwnlysoedd	LITC
D3	Sicrhau fod diweddariad ar ddiwygio'r tribiwnlysoedd yn cael ei gyfathrebu gan Dîm Diwygio'r Tribiwnlysoedd yng nghyfarfodydd yr Arweinwyr Barnwrol	UTC
D4	Cyfathrebu â holl aelodau'r tribiwnlysoedd am gynnydd y Bil ar gamau allweddol yn y broses	LITC / AB

LITC – Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

AB – Arweinwyr Barnwrol

UTC – Uned Tribiwnlysoedd Cymru